## ERYL WYN ROWLANDS Llangefni a

# 'Steddfod Stemar Llyn Windermere – 1872

Fis Hydref 1872 fe gyhoeddwyd pamffledyn bychan, 15 tudalen, gan John Davies, Bont Bridd, Caernarfon dan olygiaeth 'Ap Gwyrfai' sef Thomas Williams, mab Owain Gwyrfai. Does dim yn arbennig ynddo ar yr olwg gyntaf ond am ei deitl – *Helyntion Beirdd Barrow* ac mai hwn oedd y rhifyn cyntaf, gyda'r ail i ddilyn gobeithio, ymhen pedwar mis. Ond agorwch y tudalennau brau ymhellach ac mi gewch hanes Eisteddfod Windermere y flwyddyn honno. Eisteddfod unigryw hyd y gwn i gan iddi gael ei chynnal ar stemar bleser ar Lyn Windermere.


Roedd yn ddiwrnod perffaith o haf, yr wybren yn glir ac wyneb y llyn yn llyfn. Broliwyd nad oedd y fath olygfa wedi ei gweld yn y byd erioed o'r blaen. Ar ganol y dec, uwchben y peiriant ager codwyd llwyfan gyda chadair i'r llywydd eistedd arni, cadair i'r Archdderwydd yn ei fantell o redyn a gweddill yr Orsedd. Tua starn y llong o dan do o darpwlin gwyn a blodau wedi eu plethu drwyddo fe eisteddai'r merched.

Safai meini'r orsedd tua blaen y llong, y tu ôl i'r llwyfan, gyda'r cantorion yn eistedd o'u cylch, a gweddill y cwmni o'r tu ôl iddynt. Codwyd baneri lliwgar i ben yr hwylbren. Estynnai canghennau deiliog o'r hwylbren i'r jib bwm ar flaen y llong, gyda chadwyn gyffelyb o rosod i flaen y mên bwm. Gorchuddiwyd y corn gydag arwyddeiriau Cymraeg – *Hir Oes i Eisteddfod Windermere – Boed byth yn heirdd beirdd Barrow - Hwre i bawb*, a.y.y.b.

> *'Tra y dadseiniai y côr un o hen alawon Cymreig, clywid y peiriaint odditan yr esgynlawr; ymlithriai yr holl babell yn arafaidd a mawreddog trwy y dyfroedd arianaidd a gadawyd yr ymwelwyr yn cyhwfan eu cadachau ar y lan.'*

Pwysig yw cofio hefyd mai gŵyl heb gystadlu oedd hon.

Cyn taflu golwg ar y gweithgareddau mae'n ddiddorol sylwi pwy oedd y prif gymeriadau, ac o'r 'enwau barddol' ymddengys fod y mwyafrif o Ynys Môn. Dyna H. Williams, *Gwalch Môn* a godwyd yn llywydd.



Y RHAN GYNTAF

O

HELYNTION BEIRDD BARROW:

YN CYNWYS,

*Rhagymadrodd; Hanes Eisteddfod Windermere; Crynodeb; Y Nos-Garwr Trwstan; Barddoniaeth; &c., &c.*

DAN OLYGIAETH

AP GWYRFAI.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD GAN JOHN DAVIES, BONT BRIDD.

*Wyneb ddalen Helyntion Beirdd Barrow.*

**Ofyddion yr Orsedd** oedd H. Evans (brawd i *Eta Môn*,) H. Jones, Llangwyllog – *Ap Gwyllog*, Thomas Evans – *Ap Mathafarn* a G. Eames, Llanfihangel - *Ap Mihangel*.

**Beirdd yr Orsedd** oedd R. Roberts, Llaneugrad – *Eugrad*, J. Owens, Amlwch – *Amlwch fab* ac R. Evans – *Ap Penrhyn*.

**Y Cerddorion** oedd D. Roberts, Cynwyd – *Cynwydfab*, W. Jones, Cilcain – *Llew Barrow*, W. Owen, Niwbwrch – *Gwilym Gwladys*, ac O. Owens, Caergybi, – *Cybi*.

**Yr Eosiaid** oedd Miss E. Lewis, Barrow, chwareuydd y berdoneg – *Perores Môn*, Miss Dowell, Prestatyn – *Eos Prestatyn* a Mrs Richard, Barrow – *Eos Gwalchmai*.

Adroddwyd am rwysg *Eryr Menai*, yr archdderwydd a chleddyf *pren* yr Orsedd. Canwyd penillion gyda'r delyn gan *Cybi* a *Gwilym Gwladys*. Darllenodd *Huwco Môn* bapur ar darddiad enwau lleoedd y cylch. Darllenwyd rhan o'r awdl i 'Olygfeydd Windermere' gan *Ioan Ddu o Fôn* a gwahoddwyd pawb i Eisteddfod Barrow ar y Calan, 1873.

Clowyd yr holl weithageddau gan *Ap Mathafarn* hefo'i ddwy droed yn gadarn ar y pŵp yn datgan fod eisteddfod nesaf Windermere i'w chynnal ymhen blwyddyn a diwrnod yn ogystal â rhoi

> *'anogaeth i bawb gadw urddas eu titlau, a pheidio anurddo eu hunain.'*

Diddorol fyddai gwybod mwy am hynt a helynt y Cymry alltud yma. Gwir fod chwarelwyr wedi ymfudo i weithio i chwareli llech Cumbria. Adroddir fod y fasnach haearn yn Barrow wedi denu rhai cannoedd o Gymry i fyny hyd tua 1868. Dywedir fod mwynwyr a gweithwyr mewn haearn wedi dod i Dalton a'u bod yn rhifo 210 yn 1874 ac, wrth gwrs, yr oedd cysylltiad cryf iawn rhwng Millom ac Amlwch, gyda William Thomas, yr adeiladwr llongau o Borth Amlwch, hefo iard longau ym Millom hefyd. Sefydlwyd achosion Cymraeg gan y Methodistiaid yn Barrow ym 1855, Dalton ym 1874 a Millom ym 1873. Achosion a fu'n weddol llewyrchus am tua hanner canrif. Cauwyd achos Barrow ym 1896, Dalton ym 1927 a Millom ym 1930.

Sawl eisteddfod a gynhaliwyd ar ddyfroedd Llyn Windermere tybed ac a gynhaliwyd eisteddfod ar stemar ar unrhyw lyn arall?


# Yn Eisiau

*Crwydro Bro Morgannwg*: Aneurin Talfan Davies, Cyfrol 2.

*Pennant's Tours in Wales*. Arg. John Rhys 1883. Cyfrol III (Rhwymiad brown).

*Barddas*, Rhifynnau 55 (1981), 97 (1985), 171 1 172 (1991).

Cysyllter ar **(01248) 601007**


# Ysgol Ramadeg Pencader

*(Parhad o dudalen 7)*

gerllaw Pencader. Gwnaeth ef a'i wraig eu cartref yn Nhremle, ffaith sydd yn dweud nad oedd y tŷ hwnnw mwyach yn rhan o'r ysgol. Yn fwy na thebyg roedd y nifer o rai preswyl wedi gostwng a digon o le ar eu cyfer, naill ai yn Rhianfa neu yn Crofft Hir. Byddai angen un o'r tai, pa un bynnag, i fod yn gartref i'r prifathro newydd, J. R. Saunders, M.A., gŵr yn enedigol o blwyf cyfagos Llanllwni ac yn raddedig gydag anrhydedd mewn gwyddoniaeth yng Nghaergrawnt.

### Lleihad sylweddol yn y nifer o ddisgyblion

Roedd talcen go galed yn wynebu'r prifathro newydd. Pan ddechreuodd ar ei waith roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cychwyn ac am barhau am bedair blynedd. Dilynwyd ef gan gyfnod ansicr, annhrefnus, ac wedi hynny y dirwasgiad enbyd a barhaodd heibio diwedd yr 1920au. Prawf clir o leihad sylweddol yn y nifer o ddisgyblion oedd penderfyniad y prifathro i gynyddu ei incwm trwy gymryd curadiaeth Pencader yn 1920 ond, yn anffodus, er fod pump papur rhanbarthol yn cylchredeg yn yr ardal – *Carmarthen Journal, The Welshman* a *Celtic Times* o Gaerfyrddin, *The Welsh Gazette* o Aberystwyth a'r *Cardigan and Tivy Advertiser* o Aberteifi, yn ystod yr 1920au go ychydig o newyddion o Bencader a welir ynddynt. Yn sicr ni welwyd dim hanes o Ysgol Ramadeg Pencader ynddynt, ac yr oedd hynny, y mae'n debyg, gymaint â dim i'w briodoli i'r lleihad yn ei phwysigrwydd yn yr ardal.

Y mae un stori am J. R. Saunders sydd ar lafar yn rhoi amcan go dda am safon rhai o'r disgyblion. Dywedir am wraig o Bencader a fu'n hel ei harian i dalu am dymor o addysg i'w mab. Doedd y crwtyn hwnnw, y mae'n ymddangos, ddim wedi disgleirio o gwbl a phan gynigiwyd yr arian gan y fam ymatebodd y prifathro trwy ddweud, 'Does arnoch chi ddim i mi. Aeth eich mab â dim gydag ef oddi yma!'

Rhoddodd Saunders y gorau i'r ysgol tua diwedd 1929 ac ymadawodd i fynd yn ficer New Moat yn Sir Benfro. Wedi hynny y mae'n ymddangos fod athrawes – sydd mor belled yn dal yn un ddienw – a fu'n ei gynorthwyo wedi cadw'r lle ar agor cyn ei chau yn gyfangwbl tua diwedd 1934.

### Defnyddio'r Ysgol yn ystordy

Ym mis Mawrth 1935, dechreuodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddefnyddio'r adeilad fel ystordy a chanolfan rhanbarthol. Oherwydd darpariaeth yn ewyllys J. D. Evans roedd yr ysgoldy, ar farwolaeth ei wraig, i fynd i ddwylo Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn y gobaith y gellid defnyddio'r arian a geid amdano i sefydlu ysgoloriaeth. Cadarnhawyd fod y coleg wedi cymryd meddiant o'r lle yn 1940, ac yn 1959 gwerthwyd ef i'r Cyngor Sir. Yn y cyfamser, wedi marwolaeth gwraig y prifathro, fe werthwyd Tremle ac oherwydd ei bod hi a'i gŵr wedi cael eu claddu mewn bedd yn yr ardd fe symudwyd y gweddillion, ynghyd â'r garreg hardd ar y bedd, i fynwent Llanllwni.